Caring Together
Western Bay
Health and Social Care Programme
Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

22 Mehefin 2017
10.00 – 12.00
Stiwdio Gefn, Theatr y Grand, Abertawe

Cofnodion

Cynrychiolwyr

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Rob Stewart (Cadeirydd)	Dinas a Sir Abertawe	RS
Yr Athro Andrew Davies (Is-gadeirydd)	BI PABM	AD
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Alex Howells	BI PABM	AH
Y Cynghorydd Huw David	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	HDa
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DP
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cynghorydd Rob Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot	RJ
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL
Nick Jarman	CBS Castell-nedd Port Talbot	NJ
Phil Roberts	Dinas a Sir Abertawe	PhR
Y Cynghorydd Mark Child	Dinas a Sir Abertawe	MC
Dave Howes	Dinas a Sir Abertawe	DH
Linda Jaggers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio/Y Trydydd Sector	ET
Amanda Carr	CGGA/Trydydd Sector	AC
Rosita Wilkins	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/ Dinasyddion	RW
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru/Y Trydydd Sector	CT
Sharon Williams	Fforwm Gofal Cymru/Y Sector Annibynnol	SW
Sara Harvey	Bae'r Gorllewin	SH
Nicola Trotman	Bae'r Gorllewin	NT
Debbie Smith	Dinas a Sir Abertawe	DS

Yn bresennol

Joanne Abbot-Davies (Eitem X ar yr Agenda)	BI PABM	JAD

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Dinas a Sir Abertawe	CL

Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Gaynor Richards	CGG CNPT/Y Trydydd Sector	GR
Steve Phillips	CBS CNPT	PS
Maggie Berry	BI PABM	MB
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM

Cyf	Eitem	Cam Gweithredu
1	**Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	
	Croesawodd RS bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys aelodau newydd y BPRh, y Cyng. Dhanisha Patel, y Cyng. Rob Jones, y Cyng. Alan Lockyer ac Alex Howells, Prif Weithredwr Dros Dro, PABM. Rhoddwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod	**Aelodau newydd i lofnodi'r ffurflen datganiadau o fuddiant a chôd ymddygiad**
2	**Datganiadau o Fuddiant**	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
3	**Cofnodion**	
3.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir	
4	**Materion yn codi a chofnod gweithredu**	
4.1	Nid yw Panel Rhanbarthol y Dinasyddion wedi nodi dirprwy ar gyfer RW eto. (Cam Gweithredu)	
4.2	Nid yw Fforwm yr Undebau Llafur wedi enwebu dirprwy gynrychiolydd i fod yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eto gan nad yw'r fforwm ULl wedi cwrdd eto, er y bydd SH yn annog y fforwm i wneud hynny. (Cam Gweithredu)	
4.3	Mae Egwyddorion y Fframwaith Atal wedi bod gerbron cabinetau DASA a CBS Pen-y-bont ar Ogwr a bydd yn symud ymlaen i Gabinet CNPT a'r Bwrdd Iechyd ar yr adeg briodol. (Cam Gweithredu)	
4.4	Mae WCCIS yn datblygu cynllun peilot yn y tîm integredig yn Nhrem-y-môr ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cyfeirir at hyn yn fanylach yn adroddiad WCCIS yn eitem 12 yr agenda. (Cam Gweithredu)	
4.5	Cadarnhaodd SH fod y grŵp cyllid a chyfreithiol wedi dweud nad oes gennym sail gyfreithiol ar gyfer cynnal cyfarfod cyhoeddus gan nad yw'r logisteg ar gyfer cynnal cyfarfod cyhoeddus yn cael ei chynnwys/chefnogi gan ddeddfwriaeth. Gofynnodd y Cyng. Rob Stewart am fwy o eglurhad ar y mater hwn gan gydweithwyr cyfreithiol. (Cam Gweithredu)	
4.6	Cadarnhaodd SH fod gwybodaeth i ofalwyr ar gael mewn meddygfeydd ac y bydd gwybodaeth ar gael mewn lleoliadau	

eraill. (Cam Gweithredu).

4.7 Nodwyd bod mwy o ymwybyddiaeth mewn ysgolion o ofalwyr yng nghynigion ariannu'r CGI ar gyfer gofalwyr. (Cam Gweithredu)

4.8 Bydd adroddiadau cynnydd, gan gynnwys statws CAG ar waith ar gyfer cyfarfod mis Medi. (Cam Gweithredu: 30)

4.9 Cadarnhaodd CNPT nad yw'n gallu rhoi dyddiad cynt er mwyn rhoi WCCIS ar waith, a bydd y dyddiad yn aros fel 2019 (Cam Gweithredu 31)

5 Ymddiriedolaeth Shaw

5.1 Rhoddodd Maria Thomas, Cyfarwyddwr Partneriaethau o Ymddiriedolaeth Shaw, gyflwyniad ar Raglen Gwaith ac Iechyd yr AGPh at ddibenion gwybodaeth yn unig.

6 Y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)

6.1 Rhoddodd DH y diweddaraf am yr IFSS.

6.2 Mae'r adroddiad perfformiad yn darparu tystiolaeth bod ymyriadau amserol, sy'n arwain at leihau angen.

6.3 Mae'r IFSS yn gweithio gyda nifer bach o deuluoedd, felly mae targedu teuluoedd yn effeithlon yn hanfodol.

6.4 Nododd DH fod angen gwreiddio ymhellach y trefniadau gweithredol yn y continwwm o wasanaethau mewn awdurdodau lleol, gan ganiatáu hyblygrwydd yn y model fel bod y gwasanaeth wedi'i deilwra i gyd-fynd â threfniadau lleol.

6.5 Nododd SC fod atgyfeiriadau'n eithaf isel. Cadarnhaodd DH nad oes angen gwasanaeth IFSS llawn ar rai atgyfeiriadau, a chynigir arweiniad ar eu cyfer neu cânt eu hatgyfeirio i weithiwr cymdeithasol yn lle hynny. Nodwyd bod ymyriad dwys yn cael ei ddefnyddio gyda nifer bach o deuluoedd yn unig. Cododd HD bryderon nad yw rhai teuluoedd yn bodloni'r meini prawf.

6.6 Cadarnhaodd DH y cynigir math IFSS o wasanaeth i'r teuluoedd hyn gan yr awdurdod lleol.

6.7 Cymeradwyodd aelodau'r BPRh adroddiad blynyddol yr IFSS ar gyfer 2016/17.

7 Eiriolaeth

7.1 Darparodd DH ddiweddariad llafar ar gyfer yr eitem hon.

7.2 Mae LlC wedi cytuno ar ymagwedd genedlaethol at gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc.

7.3 Roedd yr ymagwedd genedlaethol hon yn cynnwys

methodoleg i gyfrifo faint o wasanaethau eiriolaeth sydd eu hangen.

7.5 Roedd DH yn pryderu bod y maint hwn o wasanaethau wedi'i orbwysleisio, felly cytunodd Grŵp Arweinyddiaeth BGn ymrwymo 80% ymlaen llaw ond rhoi 20% o'r neilltu ar gyfer prynu ar y pryd drwy'r un trefniadau. Mae LlC yn fodlon ar yr ymagwedd hon ac mae wedi cadarnhau'n unol â'r model cenedlaethol.

7.6 Cymeradwyodd y BPRh yr ymagwedd hon.

7.7 DASA i arwain ar yr ymarfer tendro.
Gofynnodd AD i ba raddau yr oedd PABM wedi bod yn rhan o hyn.

7.8 Cadarnhaodd DH fod cyfranogaeth wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn, ond nododd y bydd y Comisiynydd Plant yn edrych ar Iechyd ac Addysg nesaf.

8 Y Gronfa Gofal Integredig (CGI)

8.1 Darparodd SH y diweddaraf am CGI 2017/18.

8.2 Mae cyfran fawr o refeniw'r CGI yn ariannu'r gwasanaethau Gofal Canolraddol, y mae'r cynllun busnes sy'n nodi'r model ar gyfer y CGI a chytundebau A33 yn sail iddynt.

8.3 Ystyriwyd gweddill yr arian refeniw dan y blaenoriaethau strategol a nodwyd.

8.4 Cytunwyd ar y cynllun buddsoddi refeniw a chynigion cyfalaf gan banel asesu amlasiantaeth ac yna'i gymeradwyo gan Dîm Rhaglen a Grŵp Arweinyddiaeth BGn.

8.5 Roedd y cytundeb ysgrifenedig/MoDd yn nodi bod arweiniad y CGI yn sail i egwyddorion cyffredinol y cyllid ac yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ac ymrwymiad i drefniadau monitro. Adolygwyd a chymeradwywyd y MoDd gan y Grŵp Cyllid a Chyfreithiol a Grŵp Arweinyddiaeth Bae'r Gorllewin.

8.6 Nodwyd bod cyllidebau WCCIS a'r GAI yn rhai a glustnodir.

8.7 Yn gweithio ar hyn o bryd i gytuno ar ddull o gyflwyno cynllun grant mawr a bach ar gyfer y 3ydd sector gyda'r CGG.

8.8 Daw cymeradwyaeth ar gyfer y cynnig refeniw drwy'r BPRh.

8.9 LlC fydd yn cymeradwyo'r cynigion cyfalaf yn derfynol

8.10 Cymeradwyodd aelodau'r BPRh y cynllun buddsoddiad refeniw, y cynlluniau cyfalaf a'r cytundeb/MoDd ysgrifenedig.

9 Y Diweddaraf am y Gwasanaethau Cymunedol

9.1 Rhoddodd DH ddiweddariad ar y Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol.

9.2 Mae mwy o waith cynnwys gyda staff yn parhau er mwyn deall dyhead y rhaglen a'r system ehangach.

9.3 Gwaith cyfredol i ddatblygu'r fframwaith perfformiad, sy'n gwella'n barhaus, drwy ran o system hynod gymhleth.

9.4 Mae darnau o waith arwyddocaol eraill yn cynnwys gwerthusiad cyffredinol o'r Gwasanaethau Gofal Canolraddol gan Cordis Bright. Bydd yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf

	y BPRh ym mis Medi, ynghyd â'r gwaith Pwysau'r Gaeaf.	
9.5	Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar effaith y Gwasanaethau Gofal Canolraddol ar wasanaethau craidd. Cwblhawyd drafft cyntaf yr adroddiad.	
9.6	Mae datblygiad datganiadau'r farchnad leol ar gyfer cartrefi gofal ar waith	
9.7	Y gronfa a rennir ar gyfer cartrefi gofal i'w chwblhau erbyn mis Ebrill 2018, a chytundeb y caiff 3 trefniant A33 ar wahân eu datblygu ar gyfer pob ardal leol ym Mae'r Gorllewin ar gyfer y gronfa a rennir i gartrefi gofal.	
9.8	Fodd bynnag, cafwyd gohebiaeth gan LlC yn mynnu bod un cytundeb rhanbarthol yn cael ei lunio. Mae'r holl ranbarthau eraill yn bwriadu datblygu cytundebau ar wahân.	
9.9	Nodwyd y byddai datblygu trefniadau'r gronfa a rennir yn lleol yn gymhleth, yn enwedig wrth bennu beth yw cyfraniad yr awdurdod iechyd a'r awdurdod lleol o fewn amserlenni mor dynn.	
9.10	Cadarnhaodd DH y byddai cronfa a rennir yn lleol yn gam cyntaf i ddod o hyd i atebion i rai o'r problemau presennol ac y gallai'r gronfa a rennir gynnwys fformiwla ar gyfer cyfraniad partneriaid a byddai ffocws y defnydd o'r gronfa a rennir ar gyflwyno'r weledigaeth strategol.	
9.11	Dywedodd y Cyng. Rob Stewart fod angen i ni ddeall pam y mae LlC yn mynnu cronfa ranbarthol a rennir ar gyfer yr ymagwedd hon, o ystyried bod yr holl ranbarthau'n anghytuno â'r ymagwedd hon. Yn yr un modd, mae angen i ni esbonio pam rydym yn cynnig cronfeydd a rennir ar gyfer pob ardal leol a'n rhesymeg dros yr ymagwedd hon. RS ac AD i drafod y mater â gweinidogion ar 11 Gorffennaf.	RS ac AD i ofyn i LlC am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r ymagwedd cronfa a rennir yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf
9.12	Cytunwyd y dylid penodi ymgynghorydd annibynnol/brocer gonest er mwyn cynnal proses gyfartal a theg ar gyfer y gwaith.	
9.13	Nododd y Cyng. Huw David y bydd angen darllen y Ddeddf i ddeall y sail gyfreithiol ar gyfer y gronfa a rennir ar gyfer cartrefi gofal.	
9.14	Gofynnwyd am adroddiad diweddaru ar y gronfa a rennir ar gyfer cyfarfod y BPRh ym mis Medi.	Yr adroddiad diweddaraf am y gronfa a rennir yn BPRh mis Medi
10	**Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** *Roedd Joanne Abbott-Davies, PABM, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.*	
10.1	Darparodd JAD y diweddaraf am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI).	
10.2	Mae cyllid y CGI (£318k) wedi'i glustnodi ar gyfer y gwasanaeth newydd hwn. Mae cynnig ariannu'n cael ei ddatblygu a chaiff ei gyflwyno i LlC er mwyn i'r arian gael ei ryddhau.	
10.3	Bydd y GAI yn wasanaeth integredig gyda'r awdurdod iechyd	

	ac awdurdodau lleol a nod y gwasanaeth yw nodi'r bylchau presennol yn y gwasanaeth.	
10.4	Cynllunio i ddiwygio Bwrdd Prosiect Dros Dro'r ASA er mwyn iddo ddod yn Grŵp Strategaeth Rhanbarthol, sy'n cael ei fynnu yn arweiniad LlC.	
10.5	Cododd SC broblem bosib ynghylch adnoddau yn y dyfodol os bydd nifer sylweddol y bobl na wyddom amdanynt yn cyflwyno'u hunain unwaith bydd y gwasanaeth ar waith.	**Cytunodd aelodau'r BPRh i gymeradwyo cynnig ariannu'r GAI drwy e-bost. Cadarnhawyd mai'r dyddiad cau fydd 31 Gorffennaf 2017**
10.6	Nododd AD y byddai angen archwilio llwybrau ac y byddai rhaid i bob un ohonom fod yn gyd-gyfrifol am sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI).	
10.7	O ystyried bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cynnig cyn y BPRh nesaf, gofynnwyd i aelodau'r BPRh gymeradwyo'r cynnig drwy e-bost.	
11	**Panel Rhanbarthol y Dinasyddion**	
11.1	Rhoddodd RW adborth o banel rhanbarthol y dinasyddion.	
11.2	Roedd pryder nad oedd aelodau wedi cael dogfennaeth mewn pryd, er bod cyfarfodydd bellach wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn.	
11.3	Roedd y ddogfennaeth yn hir iawn ac yn cynnwys jargon ac acronymau.	
11.4	Byddai crynodeb byr yn ddefnyddiol.	
11.4	Cytunwyd i ystyried a datblygu cynllun tymor hwy ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Cytunodd AD i gwrdd ag SH i drafod ymhellach.	**SH i gwrdd ag AD i drafod cynllun cynnwys tymor hir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth**
11.5	Nododd AD fod problem gydag iaith a bod gan y BPRh gyfrifoldeb ar y cyd i edrych ar hyn a'n bod yn ymroddedig i fynd i'r afael â hyn.	
11.6	Cynigiodd AC gymorth yr hwyluswyr IaGC rhanbarthol os oes ei angen i lunio dogfennau hawdd eu darllen.	
12	**Adroddiad am gynnydd: Prosiect Contractio a Chaffael**	
12.1	Rhoddodd DH y diweddaraf am y fframwaith cydweithredol integredig cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer lleoliadau preswyl i unigolion â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.	
12.2	Cymeradwyodd y BPRh y penderfyniad i ddefnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer lleoliadau lle mae'r costau'n niwtral neu'n darparu arbedion cost.	
13	**Adroddiad am gynnydd: Cynllun Ardal**	
13.1	Nododd SH y bydd yr wybodaeth o'r sesiwn a hwyluswyd gan y BPRh ym mis Ebrill yn helpu i gyfeirio'r cynllun ardal, sy'n gorfod cael ei lunio erbyn mis Ebrill 2018. Nodwyd bod hon yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer BGn.	
Dyddiad y cyfarfod nesaf		

21 Medi, 2017

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm